Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher 22 Mawrth 2023 (10:30 – 14.25), Chwaraeon Cymru, Caerdydd

Yn bresennol

Cyfarwyddwyr:	Dr Aled Eirug (Cadeirydd) Ann Beynon William Callaway Nia Elias Rhys Evans Meri Huws Yr Athro Anwen Jones Gwilym Dyfri Jones Pedr ap Llwyd Llinos Roberts
Sylwedydd:	Dr Cliona O'Neill (CCAUC/HEFCW) Alan Jones (Llywodraeth Cymru)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr) Dr Dylan Phillips (Ysgrifennydd) Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd) Gwenllian Griffiths (Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu) Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant) Joanna Evans (Swyddog Technegol: Adnoddau ac E-ddysgu) (Eitem 6) Mari Fflur (Rheolwr Academaidd: Cyhoeddiadau ac Adnoddau)
Ymddiheuriadau:	Angharad Roberts, Yr Athro Enlli Thomas, Deio Owen

Cofnodion Cyfarfod 22 Mawrth 2023

1. Eitem 1 – Croeso, ymddiheuriadau a materion rhagarweiniol

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
1.1	Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.		
1.2	Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod.		

2. Eitem 2 – Datganiadau o ddiddordeb

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
2.1	Datganodd y Cadeirydd, Dr Aled Eirug, bod ei wraig wedi'i phenodi'n Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru.	Diweddaru'r Gofrestr Buddiannau	Ar unwaith
2.2	Datganodd Ann Beynon ei bod wedi'i phenodi'n Gadeirydd Gwasanaeth Yswiriant Undeb Amaethwyr Cymru (FUWIS). Estynnwyd llongyfarchiadau iddi.	Diweddaru'r Gofrestr Buddiannau	Ar unwaith

3. Eitem 3 – Cofnodion 23 Tachwedd 2022

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
3.1	Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2022.		

4. Eitem 4 – Materion yn codi

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
4.1	**Cymdeithas Ddysgedig Cymru** Adroddwyd bod y Coleg a'r Gymdeithas Ddysgedig yn ystyried cynnal ystod o weithgareddau ar y cyd gan gynnwys Darlith Edward Lhuyd. Adroddwyd mai Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi'r Coleg sy'n cynghori ar faterion ymchwil a chyhoeddi, ac mae'r Pwyllgor yn cynnwys sawl aelod sydd hefyd yn gymrawd o'r Gymdeithas Ddysgedig. Adroddwyd bod Panel Annibynnol Cronfa Gyhoeddiadau CCAUC a gynullir gan Wasg Prifysgol Cymru yn cwrdd tair gwaith y flwyddyn i drafod ceisiadau ar gyfer cyhoeddiadau ym maes 'Astudiaethau Cymru' a chynhelir y cyfarfod nesaf ar 24 Mawrth.		
4.2	**Arolwg darpariaeth alwedigaethol** Cyfeiriwyd at holiadur sydd wedi ei ddosbarthu i golegau gan Gomisiynydd y Gymraeg a chadarnhawyd bod swyddogion y Coleg yn ymwybodol o'r gwaith. Nodwyd hefyd bod gwaith mapio am ddarpariaeth alwedigaethol mewn ysgolion yn cael ei gydlynu gan CYDAG, er nad yw'r ymarferiad yn gyflawn ar hyn o bryd.		

5. Eitem 5 – Materion y Cadeirydd

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
5.1	Adroddodd y Cadeirydd ar lwyddiant y Cynulliad Blynyddol a gynhaliwyd y noson gynt. Cyfeiriodd at sylwadau'r Athro Sioned Davies, Cymrawd newydd, yn y Cynulliad am sefyllfa athrawon cyfrwng Cymraeg.		
5.2	Adroddodd ar ymweliadau i Goleg y Cymoedd a Phrifysgol Met Caerdydd a'r bwriad i ymweld â sefydliadau eraill yn ystod y misoedd nesaf.		
5.3	Adroddodd ar ei gyfarfodydd ar y cyd gyda'r Prif Weithredwr gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a gyda chadeirydd a phrif weithredwr CCAUC (Rob Humphreys a Dr David Blaney).		
5.4	Adroddodd ar y bwriad i drafod perthynas y Coleg â'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn ogystal ag ymateb y Coleg i'r ymgynghoriad ar y Bil Addysg Gymraeg yng nghyfarfod strategol y Bwrdd ar 17 Mai.		
5.5	Adroddodd y byddai'n cyfarfod â chynrychiolwyr y myfyrwyr ar 24 Mawrth.		

6. Eitem 6 – Adroddiad y Prif Weithredwr

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
6.1	Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar.		

6.2	**Cyfarfod Gweinidog y Gymraeg ac Addysg** Adroddwyd ar y cyfarfod gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a gynhaliwyd ar 12 Chwefror i drafod sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil; Addysg Gychwynnol Athrawon; a'r Papur Gwyn ar Addysg Gymraeg.		
6.3	**Adroddiad monitro Llywodraeth Cymru** Nodwyd yr adroddiad monitro a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, er gwybodaeth.		
6.4	**Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil** Adroddwyd bod y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu wedi cwrdd â chyfreithwyr y Coleg ar 20 Mawrth i drafod caffael cyngor cyfreithiol arbenigol ar ffurf addas i'r Coleg gyflwyno cyngor i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.		
6.5	**Addysg Uwch** Rhoddodd Dr Cliona O'Neill ddiweddariad ar adroddiad *London Economics* ar gyllido a chostau addysg uwch cyfrwng Cymraeg sydd wedi ei gyflwyno i Fwrdd y Cyngor Cyllido (HEFCW).		
6.6	**Addysg Bellach a Phrentisiaethau** Adroddwyd ar y cynllunio ym meysydd Addysg Bellach a Phrentisiaethau. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Coleg sefydlu dau grant datblygu ychwanegol ar gyfer Cynorthwy-wyr Dysgu.		
6.7	**Cymwysterau Cymru**		

	Adroddwyd bod y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd wedi rhoi cyflwyniad i Fwrdd Cymwysterau Cymru ddiwedd Ionawr. *Datganodd Ann Beynon fuddiant gan iddi fod yn aelod o Fwrdd CBI Cymru.*		
6.8	**Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)** Adroddwyd ar gyfraniad y Coleg at waith cynllunio yn y maes drwy fforwm Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg a gadeirir gan Dr Rhodri Llwyd Morgan. Mae cyfrifoldebau penodol wedi'u pennu i nifer o sefydliadau a chyrff gan gynnwys y Coleg. Mae'r Coleg wedi ymateb i ymgynghoriad i'r meini prawf ar gyfer darparwyr AGA ac wedi argymell bod angen codi'r disgwyliadau yn sgil polisi a chanlyniadau Cyfrifiad 2021. Mae'r Coleg wedi derbyn gwahoddiad i roi cyflwyniad i'r Bwrdd Achredu AGA.		
6.9	**Cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol** Adroddwyd ar y cydweithio rhwng y Coleg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar ystod o gynlluniau gan gynnwys Cymraeg Gwaith. Yn sgil cyhoeddi'r Papur Gwyn rhagwelir y bydd angen ffurfioli'r berthynas ymhellach maes o law.		
6.10	**Secondiad** Adroddwyd ar secondiad rhan-amser Dr Dafydd Trystan i Lywodraeth Cymru tan ddiwedd 2023. Bydd yn parhau i weithio i'r Coleg am ddeuddydd yr wythnos. Mae trefniadau cyflenwi mewn lle gan gynnwys dyrchafiad dros dro Gwenllian Griffiths i'r Uwch Dîm Reoli.		

	Ar y pwynt hwn ymunodd Joanna Evans		
6.11	**Gwefan newydd y Coleg** Rhoddwyd cyflwyniad ar wefan newydd y Coleg gan y Swyddog Technegol: Adnoddau ac E-ddysgu. Diolchwyd i Joanna Evans am ei gwaith, cyn iddi ymadael.		

7. Eitem 7 – Trafodaeth ar Ymchwil

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
7.1	Rhoddwyd cyflwyniad ar gyd-destun y papur ar Ymchwil gan Mari Fflur.		
7.2	Eglurwyd y trafodwyd y papur yn wreiddiol yn y Bwrdd Academaidd ar 8 Chwefror.		
7.3	Adroddwyd ar yr angen i ddechrau'r drafodaeth ynghylch cynlluniau'r Coleg i gefnogi ymchwil a'r cyngor y dylai'r Coleg ei roi i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil mewn perthynas ag ymchwil cyfrwng Cymraeg.		
7.4	Trafodwyd y cwestiynau canlynol: i. Ystyriwch gynlluniau presennol y Coleg ar gyfer cefnogi ymchwil. Pa fylchau sydd yn y ddarpariaeth hon a beth gallai'r Coleg ei hun ei wneud i lenwi'r bylchau? Beth fyddai'r canlyniadau, a'r goblygiadau ariannol? ii. Ystyriwch rôl y prifysgolion mewn perthynas â chefnogi ymchwil cyfrwng Cymraeg. Pa fath o gyfarwyddyd neu newid sydd ei angen ar eich		

	prifysgol chi er mwyn ysgogi ymchwil cyfrwng Cymraeg? iii. Bydd ar y Comisiwn newydd ddyletswydd statudol i gynyddu ymchwil cyfrwng Cymraeg. Y Coleg fydd yn cynghori'r Comisiwn ynglŷn â hynny. Beth yw eich barn ynghylch y trywydd a awgrymir uchod? iv. Gyda golwg ar lywodraethiant CTER, beth sydd ei angen er mwyn sicrhau bod ymchwil cyfrwng Cymraeg yn cael lle teilwng ar yr agenda?		
7.5	Yn ystod y drafodaeth nodwyd: • y dylai'r Coleg nodi blaenoriaethau yn hytrach na manylder ar y pwynt hwn • arwyddocâd y Gymraeg o fewn meini prawf y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) • yr angen am strategaeth genedlaethol ar gyfer cyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg • rôl Cymdeithas Ddysgedig Cymru • dyletswydd ar sefydliadau yn dilyn buddsoddiad y Coleg mewn ymchwil • y dylai'r Comisiwn osod Ymchwil Cymraeg fel eitem sefydlog ar bob agenda • annibyniaeth cyngor y Coleg h.y. statws dynodiad y Coleg • beth am ymchwil cyfrwng Cymraeg y tu allan i Gymru? • pwysigrwydd cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg • y Coleg i ddylanwadu yn hytrach na rheoli'r maes		

7.6	Cyflwynir y papur ar gyfer trafodaeth yn y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi ar 28 Mawrth gyda'r bwriad o fwydo i mewn i'r cyngor a gyflwynir i'r Comisiwn maes o law		

8. Eitem 8 – Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
8.1	**Cofnodion** Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2023.		
8.2	**Holiadur gwerthuso** Nodwyd amserlen cyflwyno holiadur gwerthuso'r Bwrdd a'r cyfarwyddwyr.		
8.3	**Penodi cyfarwyddwr newydd** Adroddwyd ar y camau i benodi cyfarwyddwr newydd i'r Bwrdd erbyn cyfarfod strategol 17 Mai.		
8.3	**Dogfen llywodraethiant** Derbyniwyd y ddogfen llywodraethiant a ddiwygiwyd gan y pwyllgor i adlewyrchu arfer da o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sector cyhoeddus.		

9. Eitem 9 - Pwyllgor Archwilio a Risg

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
9.1	**Cofnodion** Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2023. Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 28 Chwefror 2023, gan William Callaway, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg: • y risg i'r Uwch Dîm Reoli wrth golli Dr Dafydd Trystan am dridiau yr wythnos hyd at 31 Rhagfyr 2023 • ansawdd uchel gweinyddiaeth y pwyllgor sy'n caniatáu gweithredu effeithiol • codi proffil seibr ddiogelwch gan gynnwys penodi aelod sy'n arbenigo yn y maes • cynllun gwaith yr Archwilwyr Allanol ar y cyfrifon blynyddol wedi'i gymeradwyo • crynodeb ar adroddiad rheolaethau ariannol allweddol a'r argymhelliad i rannu materion o bwys uchel gydag aelodau'r pwyllgor rhwng cyfarfodydd • cynllun gwaith yr Archwilwyr Mewnol wedi'i gymeradwyo • proses caffael ar gyfer gwasanaeth Archwilio Mewnol i'w gynnal yn ystod 2023/24		
9.2	**Y Gofrestr Risg** Derbyniwyd y Gofrestr Risg a adolygwyd gan y swyddogion i adlewyrchu datblygiadau yng ngwaith y		

	Coleg yn y sectorau addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau. Yn dilyn trafodaeth: • dylid ystyried aralleirio a diweddaru risg 4 o ran risg economaidd • cytunwyd ar argymhelliad y pwyllgor y dylid rhoi ystyriaeth i ychwanegu seibr ddiogelwch fel risg unigol ar y Gofrestr Risg.	Ystyried diweddaru'r Gofrestr Risg	24 Mai 2023
9.3	**Diogelwch seibr** Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylid ystyried rhoi hyfforddiant i aelodau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar faterion yn ymwneud â seibr ddiogelwch ar sail yr hyfforddiant a ddarparwyd i staff ar 7 Mawrth gan Paul Peters, Y Ganolfan Seibrgadernid yng Nghymru.	Ystyried darparu hyfforddiant seibr ddiogelwch i aelodau'r Bwrdd	I'w drefnu

10. Eitem 10 - Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
10.1	**Cofnodion** Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2023.		
10.2	**Cyllideb y Coleg 2022/23** Adroddwyd bod cyllideb 2022/23 yn unol â'r disgwyl.		
10.3	**Cyllideb 2023/24 (Eitem 13i)** Adroddwyd bod cynnydd yn y gyllideb sy'n caniatáu gweithgareddau newydd.		

	Rhagwelir incwm a gwariant o £11.2 miliwn.		
10.3	**Buddsoddiadau** Adroddwyd ar yr incwm o £90,000 o'r buddsoddiadau sy'n rhan o gyllido rhai prosiectau eraill.		
10.4	**Chwyddiant** Cyflwynwyd papur ar effeithiau chwyddiant ar waith y Coleg gan y Cofrestrydd. Nodwyd yr elfennau i effaith chwyddiant ar weithrediadau'r Coleg: i. Y graddau y mae Llywodraeth Cymru'n rhoi codiad yn unol â chwyddiant i grant y Coleg ii. Cyfradd chwyddiant ar gyfer nwyddau a gwasanaethau iii. cyfradd chwyddiant cyflogau staff gan drefn UCEA a chodiad rhicynnau blynyddol iv. effaith chwyddiant ar werth real y grantiau a ddyrennir gan y Coleg Trafodwyd lliniaru effaith chwyddiant a rhoddwyd eglurhad ar y gorbenion sy'n gymharol fach. Nodwyd effaith chwyddiant ar gyllidebau'r Coleg.		

11. Eitem 12 – Bwrdd Strategol ôl-16

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
11.1	Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Strategol ôl-16 a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023.		

	Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 15 Chwefror 2023, gan Meri Huws, Cadeirydd y Bwrdd Strategol ôl-16: Nododd: • y cafwyd diweddariad gan Dr Steve Bell ar ganfyddiadau adroddiad interim adolygiad addysg gychwynnol athrawon yn y sector addysg bellach • y cafwyd cyflwyniad ar ddata staffio gan y Cyngor Gweithlu Addysg • bod Dr Lowri Morgans ar gyfnod mamolaeth a bod Lisa O'Connor yn cyflenwi'r rôl yn ystod y cyfnod hwnnw		
11.2	Adroddodd ar sylwadau cadarnhaol gan aelodau'r Llys ar 20 Mawrth am effaith cefnogaeth y Coleg ar addysg bellach.		
11.3	Yn ystod y drafodaeth argymhellwyd y dylid ymgynghori gyda Dr Steve Bell fel rhan o'r trafodaethau ynghylch Addysg Gychwynnol Athrawon.		

12. Eitem 11 – Bwrdd Academaidd

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
12.1	Adroddwyd mai dyma fyddai cyfarfod olaf Gwilym Dyfri Jones fel cyfarwyddwr a chyfeiriwyd at ei gefnogaeth i waith y Coleg ym maes addysg uwch ac fel aelod cychwynnol ac yn ddiweddarach fel cadeirydd y Bwrdd Academaidd.		

	Wrth ddiolch am y fraint o fod yn rhan o waith y Coleg, estynnodd Gwilym Dyfri Jones llongyfarchiadau i'r tîm dan arweiniad y Prif Weithredwr. Adleisiodd sylw'r Athro Sioned Davies, Cymrawd newydd y Coleg, yn ei hymateb i'r Cynulliad y noson gynt, ar yr angen i roi sylw dyledus i faes Addysg Gychwynnol Athrawon. Ychwanegodd heb gyflenwad digonol o athrawon y byddai addysg cyfrwng Cymraeg yn y fantol.		
12.2	Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2023. Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 8 Chwefror 2023, gan Gwilym Dyfri Jones, Cadeirydd y bwrdd: Nododd: • y bydd y cyfarfod nesaf yn Abertawe ar 10 Mai yn ymdrin â rôl y Bwrdd Academaidd yn y dyfodol • y cafwyd yr un trafodaeth ar Ymchwil (Eitem 7) • y cyflwynodd cynrychiolwyr y myfyrwyr ddiweddariad ar weithgareddau myfyrwyr		
12.3	Mewn ymateb i sylw ynghylch ffurfio diwylliant y Coleg yn y cyd-destun rhyngwladol adroddwyd bod y Coleg wedi bod yn mynychu cynadleddau NPLD ers dros ddeng mlynedd.		
	Ar y pwynt hwn ymadawodd Meri Huws		

13. Eitem 13 – Rhestr Grantiau Cynllunio Academaidd Addysg Uwch 2023/24

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
13.1	**Rhestr Grantiau Cynllunio Academaidd Addysg Uwch 2023/24 (Eitem 13ii)** Cyflwynodd yr Ysgrifennydd grynodeb o grantiau cynllunio academaidd addysg uwch ar gyfer 2023/24.		
13.2	Adroddwyd ar yr amserlen a'r broses dyfarnu manwl.		
13.3	Derbyniwyd y rhestr grantiau.		

14. Eitem 14 - Llythyr Grant Llywodraeth Cymru

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
14.1	Adroddwyd y disgwylir Llythyr Grant Llywodraeth Cymru yn fuan.	Cylchredeg y Llythyr Grant i aelodau'r Bwrdd	Pan ddaw i law
14.2	Adroddodd Alan Jones y byddai'r holl gyllid yn ymddangos mewn un llythyr grant y tro hwn yn hytrach na llythyr grant ac amrywiadau ychwanegol fel a fu.		

15. Eitem 15 – Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
15.1	Cyflwynwyd Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth gan y Cofrestrydd.		

15.2	Adroddwyd y datblygwyd y strategaeth gan Noam Devey sydd bellach wedi gadael y Coleg. Mae Emily Pemberton wedi'i phenodi yn ei le.		
15.3	Adroddwyd ar y blaenoriaethau a'r cynlluniau mentora a fydd yn gyfle i gyflwyno a thyfu'r gwaith yn raddol.		
15.4	Trafodwyd yr ystyriaethau risg yn ymwneud â'r maes ac argymhellwyd ystyried strwythur adrodd ar y diweddariadau.		
15.5	Derbyniwyd y strategaeth.		

16. Eitem 16 - Materion cyfansoddiadol

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
16.1	**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Llys) y Coleg** Cyflwynwyd adroddiad llafar ar Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Llys) y Coleg a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2023 ar ffurf rithiol.		
16.2	Adroddwyd ar aelodaeth newydd y colegau addysg bellach i'r Llys. Adroddwyd y derbyniwyd cyfrifon blynyddol y Coleg hyd at Mawrth 2022 ac adroddiad blynyddol 2021/22.		

17. Eitem 17 – Unrhyw fater arall

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
17.1	**Holiadur gwerthuso**		

	Nodwyd y cylchredir holiadur gwerthuso'r cyfarwyddwyr ar 24 Mawrth i'w ddychwelyd erbyn diwedd y mis.		

18. Eitem 18 - Cyfarfodydd nesaf

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
18.1	Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf: • 17 Mai 2023, Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth • 28 Mehefin 2023, Coleg Merthyr		
	Ar y pwynt hwn ymadawodd William Callaway, Nia Elias, yr Athro Anwen Jones, Dr Cliona O'Neill, Alan Jones a'r cyfieithwyr ar y pryd.		

19. Eitem 19 - Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (caeëdig)

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
19.1	Cyflwynwyd diweddariad ar sefydlu y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil gan y Prif Weithredwr.		
19.2	Adroddwyd ymhellach ar y cyngor cyfreithiol bydd y Coleg yn caffael gan Gwion Lewis CB. Mewn cyfarfod gyda chyfreithwyr y Coleg ar 20 Mawrth gofynnwyd am gyngor ar y ffurf addas i gyflwyno cyngor, statws y cyngor a chyngor ynghylch sefydlu strwythurau ffurfiol ar gyfer trafod a datblygu perthynas gyda'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil o fis Mai ymlaen. Adroddwyd ar y ddealltwriaeth y byddai proffil staffio'r Comisiwn yn cynnwys swyddogion a fyddai'n		

	trosglwyddo o CCAUC ac adran Addysg Bellach Llywodraeth Cymru yn cyfuno i ffurfio'r Comisiwn. Atgoffwyd yr aelodau na fyddai Addysg Iechyd na Addysg Gychwynnol Athrawon yn rhan o orchwyl y Comisiwn newydd.		
19.3	Trafodwyd nifer o agweddau yn ymwneud â sail dynodiad y Coleg i'w hystyried yn llawn yng nghyfarfod strategol 17 Mai 2023.		

20. Eitem 20 – Bil Addysg Gymraeg (caeëdig)

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
20.1	Rhoddwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar y Bil Addysg Gymraeg.		
20.2	Adroddwyd y disgwylid i'r Papur Gwyn gael ei gyhoeddi ymhen wythnos. Cytunwyd i gylchredeg y Papur Gwyn.	Cylchredeg y Papur Gwyn	Yn syth ar ôl cyhoeddi
20.3	Trafodwyd goblygiadau posibl ar strategaeth y Coleg; cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol; a chyfrannu i maes AGA.		